Cyngor Cymuned Pistyll

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Pistyll a gynhaliwyd yng Nghanolfan Llithfaen Nos Fawrth 9fed o Fai am 7:00 y.h**

**Yn Bresennol**
Cynghorwyr – Olwen Roberts (OR), John Owen (JO), Griffith Jones (GJ) a William Jones (WJ)

1. **Ymddiheuriadau -** Lisbeth James, Sianelen Pleming a Gwilym Williams.
2. **Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd –** Gan na dderbynwyd enwebiad am 'run o'r swyddi hyn gohiriwyd y drafodaeth amdanynt hyd at ddechrau cyfarfod cyffredin y Cyngor ar y 13 Mehefin, 2017.

   ***Penodwyd Olwen Roberts yn Gadeirydd Gweithredol Tros Dro ar gyfer gweddill y cyfarfod hwn.***

3. **Ffurflenni Derbyn Swydd –** Cwblhawyd Ffurflen derbyn swydd gan yr Aelodau a oedd yn bresennol. Cynigiodd JO fod yr Aelodau nad oeddynt yn bresennol yn cwblhau eu ffurflenni derbyn swydd yn ystod y cyfarfod cyffredin nesaf o'r Cyngor y byddant yn bresennol' Eiliwyd gan GJ a mabwydiadwyd y cynnig.
4. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor –** Oherwydd na chynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol ers rhai Blynyddoedd nid oedd cofnodion i'w cadarnhau.
5. **Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor –** Gweler eitem 4 uchod.
6. **Ystyried argymhellion a wnaed gan Bwyllgor** – Dim yn berthnasol
7. **Adolygu trefniadau dirprwyo i bwyllgorau, is-bwyllgorau, staff ac awdurdodau lleol eraill; (yn cynnwys Swyddog Priodol a Swyddog Ariannol Cyfrifol) –**
   ***Pwyllgor y Ganolfan -*** Cynigiodd JO fod y drefn ddirprwyo i Bwyllgor y Ganaolfan i barhau fel ac y mae hyd y bydd y Brydles newydd yn cael ei datblygu pryd y bydd y strwythur rheoli yn cael ei adolygu. Eiliwyd y cynnig gan OR ac fe'i mabwydiadwyd.
   ***Swyddog Priodol a Swyddog Ariannol Cyfrifol-*** Cynigiodd OR fod y Clerc yn parhau yn y swyddogaethau hyn Eiliwyd y cynnig gan WJ ac fe'i mabwydiadwyd.
8. **Adolygu cylchoedd gorchwyl pwyllgorau -** Cynigiodd WJ fod Cylch Gorchwyl Pwyllgor y Ganolfan i barhau fel ac y mae hyd y bydd y Brydles newydd yn cael ei datblygu pryd y bydd y strwythur rheoli yn cael ei adolygu. Eiliwyd y cynnig gan JO ac fe'i mabwysiadwyd.
9. **Penodi aelodau ar bwyllgorau presennol -** *Pwyllgor y Ganolfan:* Cynigiodd OR fod Sianelen Pleming a Lisbeth James yn parhau i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor y Ganolfan. Eiliwyd y cynnig gan GJ ac fe'i mabwysiadwyd.
   Cynigiodd JO fod Griff Jones hefyd yn cynrychioli 'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor y Ganolfan. Eiliwyd y cynnig gan WJ ac fe'i mabwysiadwyd.
10. **Penodi unrhyw bwyllgorau newydd yn unol â rheol sefydlog 4 -** Dim yn berthnasol.
11. **Adolygu a mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau arianol priodol –**
    Adolygwyd y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Arianol a fabwysiadwyd yng nghyfarfod y

Cyngor Cymuned Pistyll

Cyngor ar y 13 Rhagfyr, 2016. Cynigiodd OR fod y Rheolau Sefydlog a'r Rheolau Ariannol hyn yn cael eu mabwysiadu yn y Cyfarfod Blynyddol. Eiliwyd y cynnig gan WJ ac fe'u mabwysiadwyd. Cynigiodd OR fod y Cyngor yn datblygu a mabwysiadu amserlen i adolygu y polisiau sy'n bwydo i'r Rheolau Sefydlog a'r Rheolau Ariannol. Eiliodd JO a phenderfynwyd symud ymlaen.

12. **Adolygu trefniadau, gan gynnwys unrhyw siartrau a chytundebau asiantaeth, gydag awdurdodau lleol eraill ac adolygu cyfraniadau a wnaed i wariant a wneir gan awdurdodau lleol eraill –** Dim yn berthnasol.
13. **Adolygu cynrychiolaeth ar neu waith gyda chyrff allanol a threfniadau ar gyfer adrodd yn ôl – *Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru***
    Cynigiodd OR fod y Clerc yn cynrychioi y Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor hwn pan fo'n berthnasol ac yn adrodd yn ôl fel y bo'r angen. Eiliwyd y cynnig gan WJ ac fe'i mabwydiadwyd.
14. **Adolygu stocrestr o dir ac asedau gan gynnwys adeiladau ac offer swyddfa –** Adolygwyd y stocrestr. Cynigiodd GJ iddi gael ei mabwysiadu gan y Cyngor. Eiliodd WJ ac fe'i mabwysiadwyd.
15. **Cadarnhau trefniadau ar gyfer gwarant yswiriant ar gyfer pob risg yr yswirwyd ar eu cyfer -** Mae polisi yswiriant y Cyngor ynghyd a'r asesiad risg yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod cyffredin mis Mai yn flynyddol. Cynigiodd OR fod y Cyngor yn cadarnhau'r drefn bresennol. Eiliodd JO a mabwysiadwyd y drefn honno.
16. **Adolygu tanysgrifiadau'r cyngor a/neu staff i gyrff eraill -** Adolygwyd tanysgrifiadau'r Cyngor. Cynigiodd WJ fod y Cyngor yn talu'r tanysgrifiad dyledus i Un Llais Cymru yn flynyddol. Eiliodd JO a mabwysiadwyd yr ymrwymiad.
17. **Adolygu gweithdrefn cwynion y cyngor -** Cynigiodd OR fod yr weithdrefn gwynion yn cael ei hadolygu yn ystod blwyddyn 2017/18. Eiliodd GJ a phenderfynwyd ymgymryd ac adolygiad.
18. **Adolygu gweithdrefnau'r cyngor ar gyfer trin ceisiadau a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998 –** Cynigiodd OR fod y gweithdrefnau yn cael ei hadolygu yn ystod blwyddyn 2017/18. Eiliodd JO a phenderfynwyd ymgymryd ac adolygiad.
19. **Adolygu polisi'r cyngor ar gyfer delio â'r wasg/cyfryngau –** Cynigiodd JO fod y polisi yn cael ei adolygu yn ystod blwyddyn 2017/18. Eiliodd GJ a phenderfynwyd ymgymryd ac adolygiad.
20. **Pennu amser a lle cyfarfodydd cyffredin y cyngor llawn hyd at ac yn cynnwys cyfarfod blynyddol nesaf y cyngor llawn –** Cynigiodd WJ fod y Cyngor yn mabwysiadu'r amserlen a'r lleoliadau a gyflwynwyd yn y Cyfarfod Blynyddol. Eiliodd JO ac fe'u mabwysiadwyd.

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 8fed o Fai, 2018 am 7:00 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347